# Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
# Bwrsariaeth Prifysgol Noddfa – Telerau ac Amodau

Er mwyn cael ei ystyried am y fwrsariaeth hon, rhaid i statws mewnfudo'r ymgeisydd gyfateb i un o'r canlynol:

- Caniatâd Cyfyngedig i Aros (LL)
- Diogelwch Dyngarol (HP)
- Statws Ffoadur
- Ceisiwr Lloches – unigolyn sydd wedi hawlio statws ffoadur yn y DU ac yn aros canlyniad ac y mae ei statws fisa yn caniatáu astudio ar gampws.
- dibynyddion unrhyw rai o'r grwpiau uchod, i gydnabod eu bod hwythau hefyd o gefndiroedd ceisio lloches neu ffoadur, gan gynnwys:
    - aelodau teulu ceisiwr lloches sydd â'u cais yn amodol ar brif ymgeisydd; neu
    - aelodau teulu unigolyn sydd â statws ffoadur neu ddiogelwch dyngarol sydd wedi dod i'r DU ar fisa aduno teulu.

Yn ogystal â'r uchod, rhaid i ymgeiswyr fodloni'r holl feini prawf a ganlyn, sef eu bod:

- Wedi derbyn cynnig diamod gan PCYDDS ar gyfer astudiaeth israddedig, llawn amser.
- Yn dod o'r newydd i PCYDDS yn llawn amser ac yn dechrau blwyddyn sylfaen neu lefel 4 eu rhaglen israddedig neu lefel 7 rhaglen ôl-raddedig fel myfyriwr newydd (er mwyn eglurder, nid yw myfyrwyr sy'n astudio yn y Brifysgol yn barod yn gymwys oni bai eu bod eisoes yn meddu ar Fwrsari Noddfa'r Brifysgol ac yn dymuno gwneud cais am gymorth i symud ymlaen i'r lefel academaidd nesaf.)
- Yn gallu darparu geirda i gefnogi eich cais gan ysgol, coleg, cymuned neu grŵp gwirfoddol.
- O ganlyniad uniongyrchol i'ch statws, ddim yn gymwys ar gyfer Benthyciadau Ffioedd Dysgu neu Fenthyciadau Cynhaliaeth gan Gyllid Myfyrwyr Lloegr/Cymru/Gogledd Iwerddon/SAAS
- Os ydych yn gwneud cais ar gyfer rhaglen sy'n gofyn i chi basio gwiriad DAS i gymryd rhan yn ynddi, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod gennych y ddogfennaeth angenrheidiol. Bydd methu â phasio'r gwiriadau DAS, yn arwain at gael eich gwahardd/tynnu'n ôl o'r rhaglen.

Rhaid i chi fodloni holl amodau'r cynnig academaidd er mwyn gallu dechrau eich astudiaethau.

Ni ellir gohirio'r cynnig hwn o fwrsariaeth. Os yw'n well gennych ohirio dyddiad dechrau eich rhaglen, bydd rhaid i chi wneud cais eto am y Fwrsariaeth Noddfa ar gyfer eich dyddiad mynediad newydd.

Os ydych chi'n bodloni amodau eich rhaglen academaidd ond os nad ydych chi'n ennill Bwrsariaeth Noddfa, fe allech chi ddechrau eich astudiaethau o hyd drwy hunan-ariannu.

Dyfernir Bwrsariaeth Noddfa i ymgeiswyr llwyddiannus dros gyfnod eu rhaglen unigol, ar yr amod eich bod yn gwneud y canlynol:

- cynnydd boddhaol i'r lefel astudio nesaf;
- parhau i fod wedi cofrestru ar y rhaglen wreiddiol;
- parhau i fod â hawl i fyw yn y DU;
- parhau i feddu ar statws mewnfudo o blith y rhai amlinellwyd uchod.

**Rhaglenni rhan amser**
Os byddwch chi'n ymgymryd â rhaglen astudio yn rhan amser, rydych yn gymwys i wneud cais am y Fwrsariaeth Noddfa, ar yr amod:

- bod eich dewis raglen yn cynnig opsiwn rhan amser;
- na fydd eich astudiaethau yn cymryd mwy na dwywaith hyd y rhaglen lawn amser gyfwerth i'w cwblhau (e.e. cwrs gradd meistr llawn amser un flwyddyn wedi'i gwneud yn rhan amser dros ddwy flynedd);
- efallai caiff elfen gymorth y fwrsariaeth a ddyfernir i chi ei haddasu i adlewyrchu dwysedd yr astudiaethau rydych yn ymgymryd â nhw ym mhob blwyddyn academaidd.

**Rhaglenni gyda blwyddyn mewn diwydiant**
Rydych yn gymwys i wneud cais am Fwrsariaeth Noddfa os oes gennych gynnig ar gyfer rhaglen academaidd sy'n cynnwys blwyddyn mewn diwydiant, ar yr amod nad yw'r rhaglen yn para mwy na phedair blynedd.

Eich cyfrifoldeb chi yw gwirio p'un a ydych yn gymwys i ymgymryd â'r lleoliad blwyddyn mewn diwydiant, gan roi sylw arbennig i sicrhau bod eich statws preswyliad yn caniatáu i chi weithio.

Bydd cyflog y byddwch yn ei ennill yn ystod blwyddyn mewn diwydiant, neu gyllid i fyfyrwyr mae gennych hawl iddo gan y llywodraeth, yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth gyfrifo lefel y cymorth bwrsariaeth y gallech ei chael yn ystod eich blwyddyn mewn diwydiant.

Rhaid i chi ymgynghori â Swyddfa Cymorth Ariannol y Brifysgol **cyn** gofyn i'ch athrofa os cewch chi drosglwyddo i raglen sy'n cynnwys blwyddyn mewn diwydiant ar ôl i'r fwrsariaeth gael ei dyfarnu.

**Rhaglenni gyda blwyddyn dramor**
Rydych yn gymwys i wneud cais am Fwrsariaeth Noddfa os oes gennych gynnig i astudio ar raglen academaidd sy'n cynnwys blwyddyn astudio neu leoliad gwaith tramor, ar yr amod nad yw'r rhaglen yn para mwy na phedair blynedd.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau fod eich statws preswyliad yn caniatáu teithio tramor sy'n ofynnol er mwyn ymgymryd â lleoliad tramor.

Rhaid i chi ymgynghori â'r Swyddfa Cymorth Arian a'r Swyddfa Myfyrwyr Rhyngwladol **cyn** gofyn i'ch Athrofa os cewch chi drosglwyddo i raglen sy'n cynnwys astudio neu leoliad gwaith tramor.

## Cymorth sydd ar gael trwy'r Dyfarniad Bwrsariaeth

Gall y Brifysgol hepgor ffioedd dysgu'r rhai sy'n derbyn y Fwrsariaeth Noddfa drwy gydol eu rhaglen wreiddiol nes y byddant yn gymwys i wneud cais am gymorth ariannol i fyfyrwyr gan Lywodraeth y DU, ac ar yr adeg honno fe fydd rhaid i'r rhai sy'n derbyn bwrsariaeth wneud cais am y cymorth hwn heb oedi. Unwaith y bydd myfyrwyr yn gymwys am gymorth ariannol gan y llywodraeth, caiff gwerth y ffioedd dysgu eu cyfrifo gan y Brifysgol o'r adeg y bydd y myfyriwr yn gymwys i gael cymorth ariannol.

Yn ogystal â hepgor y ffi dysgu, bydd y Brifysgol yn darparu'r cymorth a ganlyn:

**Blwyddyn Un:**

- Pas teithio bws neu drên
- Dyfais electronig drwy Fwrsariaeth Cysylltedd Digidol y Brifysgol i gefnogi eich astudiaethau academaidd
- Taleb llyfrau i gefnogi prynu gwerslyfrau academaidd
- Taleb bwyd
- Cymorth gyda chostau deunydd / lleoliad / argraffu cysylltiedig â chwrs
- Cymorth academaidd arbenigol 1-i-1 trwy'r Gwasanaethau Myfyrwyr
- Sgorio NARIC yn erbyn cymwysterau blaenorol

**Blwyddyn Dau:**

- Pas teithio bws neu drên
- Taleb llyfrau i gefnogi prynu gwerslyfrau academaidd
- Taleb bwyd
- Cymorth gyda chostau deunydd / lleoliad / argraffu cysylltiedig â chwrs
- Cymorth academaidd arbenigol 1-i-1 trwy'r Gwasanaethau Myfyrwyr

**Blwyddyn Tri:**

- Pas teithio bws neu drên
- Taleb llyfrau i gefnogi prynu gwerslyfrau academaidd
- Taleb bwyd
- Cymorth gyda chostau deunydd / lleoliad / argraffu cysylltiedig â chwrs
- Cymorth academaidd arbenigol 1-i-1 trwy'r Gwasanaethau Myfyrwyr
- Cymorth gyda chostau rhwymo traethawd hir neu brosiect terfynol
- Cymorth gyda chostau graddio (gŵn a lluniau)

**Opsiwn ôl-raddedig:**

- Pas teithio bws neu drên
- Dyfais electronig drwy Fwrsariaeth Cysylltedd Digidol y Brifysgol i gefnogi eich astudiaethau academaidd
- Cymorth gyda chostau deunydd / lleoliad / argraffu cysylltiedig â chwrs
- Cymorth gyda chostau rhwymo traethawd hir neu brosiect terfynol: £250
- Cymorth gyda chostau graddio (gŵn a lluniau) - £100

Bydd swm y cymorth ariannol yn cael ei bennu gan Grŵp Prosiect Noddfa'r Brifysgol yn flynyddol a chytunir arno yn rhan o Fframwaith Bwrsariaeth y Brifysgol. Ni chaiff cyllid ei drosglwyddo'n uniongyrchol i'r myfyrwyr er mwyn peidio ag effeithio ar gymorth ariannol gan Swyddfa Gartref y DU a chadw at y rheoliadau Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus.

Fel arfer ni chaiff eitemau eu cyfnewid am gymorth arall, ac ni chaiff ceisiadau am daliad mewn nwyddau eu hystyried.

# Sut i wneud cais

1. Rhaid i chi gyflwyno eich cais erbyn 6pm ar ddydd Iau 30st Mai 2024. Rhaid i chi lofnodi'r ffurflen gais i gadarnhau eich bod wedi darllen a derbyn telerau ac amodau'r Fwrsariaeth Noddfa.
2. Bydd y Grŵp Prosiect Noddfa yn adolygu'r wybodaeth a roddwyd gennych ar eich ffurflen gais, er mwyn deall y canlynol yn llawn:

    - Eich cymhwysedd i gael cyllid i fyfyrwyr gan Lywodraeth y DU.
    - Unrhyw rwystrau y gallech fod wedi'u hwynebu wrth gael mynediad i addysg uwch a'i chwblhau, a allai beri unrhyw:
        - doriad i astudiaethau;
        - ceisiadau aflwyddiannus i addysg uwch;
        - anallu i wneud cais o ganlyniad i ymfudo.
    - Eich cymwysterau blaenorol a p'un a ydych eisoes yn meddu ar radd gydnabyddedig neu wedi cael profiad blaenorol o addysg uwch.
    - Eich statws mewnfudo, a fydd yn pennu sicrwydd eich arhosiad a'ch gallu i weithio yn y DU.
    - Eich datganiad personol a'ch cymhelliad i astudio

3. Nod y cynllun yw gwneud yn siŵr bod ein corff myfyrwyr sy'n derbyn Bwrsariaethau yn amrywiol o ran y nodweddion gwarchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Pan fydd dau ymgeisydd yn gyfartal trwy ein meini prawf dethol, byddwn yn rhoi blaenoriaeth i grwpiau lleiafrifol.
4. Bydd y meini prawf hyn yn rhan o'r broses ymgeisio ehangach, ac felly bydd y panel dethol yn cadw'r hawl i gymryd ystyriaethau academaidd a chyllidebol i ystyriaeth wrth wneud penderfyniad ynghylch pwy fydd yn derbyn yr ysgoloriaeth yn ôl disgresiwn hon.
5. Mae penderfyniad panel dethol yn derfynol ac nid oes proses apelio.
6. Rhaid i chi gadarnhau eich bod yn derbyn Bwrsariaeth a ddyfernir i chi o fewn 10 diwrnod gwaith i gael eich hysbysu. Gall peidio ag ymateb o fewn dwy wythnos (10 diwrnod gwaith) arwain at ddyfarnu eich Bwrsariaeth i ymgeisydd wrth gefn.
7. Os byddwch yn gwrthod cynnig Ysgoloriaeth Noddfa, bydd y dyfarniad yn cael ei gynnig i ymgeisydd wrth gefn.
8. Dim ond unwaith y byddwch wedi cofrestru yn y Brifysgol yn llawn y bydd gennych hawl i daliadau'r dyfarniad Bwrsariaeth Noddfa.
9. Ni chaiff ceisiadau am daliadau mewn nwyddau eu hystyried.

**Hawl i astudio**

Os byddwch yn gwneud cais am Fwrsariaeth Noddfa, bydd rhaid i PCYDDS gynnal gwiriad hawl i astudio gan Swyddfa Gartref y DU.

Os na fydd Swyddfa Gartref y DU yn cadarnhau eich hawl i astudio, ni chaniateir i chi ddechrau eich rhaglen astudio ac ni chewch gymorth bwrsariaeth. Bydd unrhyw benderfyniad yn derfynol ac ni ellir apelio.

Os dyfernir Bwrsariaeth Noddfa i chi ac rydych yn amodol ar reolaethau mewnfudo, trwy dderbyn y Fwrsariaeth bydd gan y Brifysgol ganiatâd i gynnal gwiriad hawl i astudio ar ddechrau pob blwyddyn academaidd neu'n amlach os bydd angen. Bydd y Brifysgol yn gofyn am eich caniatâd ar gyfer unrhyw wiriad ychwanegol sydd ei angen.

**Newid mewn amgylchiadau**

**Tynnu'n ôl o'ch rhaglen**

- Ar ôl i chi dynnu'n ôl o'ch astudiaethau, ni fyddwch yn gymwys ar gyfer cymorth pellach gan Y Fwrsariaeth Noddfa.
- Ni fydd raid i chi ad-dalu gwerth unrhyw gymorth Bwrsariaeth Noddfa a ddarparwyd i chi yn flaenorol tra oeddech chi wedi cofrestru.
- Os byddwch yn tynnu'n ôl, ac roedd eich Bwrsariaeth Noddfa yn talu am eich ffioedd dysgu, bydd eich dyfarniad ffioedd dysgu gan y Fwrsariaeth Noddfa yn cael ei addasu i fodloni unrhyw ffioedd dysgu a addaswyd sy'n daladwy gennych.

**Trosglwyddo i raglen wahanol yn y Brifysgol**

- Dim ond y rhaglen y gwnaethoch ei dewis yn wreiddiol y mae'r Fwrsariaeth Noddfa'n ei chwmpasu.
- Os byddwch yn trosglwyddo i raglen arall yn y Brifysgol, fel arfer bydd hawl gennych i'r dyfarniad Bwrsariaeth Noddfa sy'n gyfwerth â hyd eich gradd wreiddiol, namyn gwerth unrhyw flynyddoedd o gymorth a gafwyd yn barod.
- Os ydych chi'n ystyried newid rhaglen, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r Swyddfa Cymorth Ariannol **cyn** i newid o'r fath gael ei gwblhau gan eich Athrofa i drafod y goblygiadau o ran eich cyllid Bwrsariaeth Noddfa.
- Wedi i chi gael eich hysbysu o'ch dyfarniad Bwrsariaeth Noddfa, os byddwch yn trosglwyddo i raglen sy'n hirach na'ch rhaglen wreiddiol, nid oes gwarant y cewch chi gyllid ar gyfer blynyddoedd ychwanegol a bydd angen i chi wneud cais arall i gyrchu cymorth pellach.
- Os byddwch chi'n trosglwyddo i raglen sydd â ffi dysgu uwch na'ch rhaglen wreiddiol, efallai y bydd rhaid i chi dalu'r gwahaniaeth rhwng y ddau ffi dysgu eich hun.
- Os byddwch yn trosglwyddo i goleg sy'n gysylltiedig â'r brifysgol, ni fyddwch yn gymwys mwyach i gael y Fwrsariaeth Noddfa.

**Trosglwyddo i brifysgol wahanol**

- Nid yw Bwrsariaeth Noddfa PCYDDS yn drosglwyddadwy.
- Os byddwch yn trosglwyddo i brifysgol wahanol, bydd eich cymorth Bwrsariaeth Noddfa yn dod i ben pan fydd eich statws fel myfyriwr cofrestredig yn PCYDDS yn gorffen.

**Ailadrodd astudiaethau**

- Efallai na fydd cymorth ar gael ar gyfer cyfnod o ailadrodd astudiaethau.
- Efallai y bydd angen i chi allu ariannu cyfnod o ailadrodd astudiaethau eich hun, gan gynnwys ffioedd dysgu a chostau byw.
- Os bydd eich hawl i Fwrsariaeth yn cael ei atal dros dro wrth i chi ailadrodd astudiaethau, fe fydd yn ailddechrau wedi i chi gwblhau'r cyfnod o ailadrodd astudiaethau yn llwyddiannus ac wedi parhau'n foddhaol â'ch astudiaethau.

**Gohirio eich astudiaethau**

- Os ydych chi'n ystyried gohirio eich astudiaethau, mae'n rhaid i chi hysbysu'r Swyddfa Cymorth Ariannol cyn i unrhyw newidiadau gael eu cadarnhau gyda'ch Athrofa.
- Os yw eich Athrofa wedi cytuno i chi gael gohirio eich astudiaethau dros dro, efallai na fydd gennych hawl i gael cymorth Bwrsariaeth Noddfa yn ystod y cyfnod gohirio. Mae eich hawl i Fwrsariaeth yn ystod unrhyw gyfnod gohirio ar ddisgresiwn y Swyddfa Cymorth Ariannol. Bydd y Swyddfa Cymorth Ariannol yn ystyried cyfyngiadau'r llywodraeth ar eich gallu i weithio, mynediad i gymorth nawdd arall gan y llywodraeth neu'r Brifysgol a dwysedd yr astudiaethau ar gyfer y cyfnod gohirio.
- Rhaid i chi hysbysu'r Swyddfa Cymorth Ariannol o unrhyw ohirio cyn gynted â phosibl i osgoi unrhyw broblemau posibl.

**Newid o astudio'n llawn amser i ran amser**

- Os ydych chi'n ystyried newid o astudio'n llawn amser i astudio'n rhan amser yn ystod eich astudiaethau, mae'n rhaid i chi hysbysu'r Swyddfa Cymorth Ariannol cyn i unrhyw newidiadau gael eu cadarnhau gyda'ch Athrofa.
- Os yw eich Athrofa wedi cytuno i chi newid dros dro o bresenoldeb llawn amser i ran amser, efallai na fydd hawl gennych i gael cymorth Bwrsariaeth Noddfa yn ystod eich cyfnod astudio estynedig.
- Mae eich hawl i Fwrsariaeth yn ystod unrhyw gyfnod o astudio estynedig ar ddisgresiwn y Swyddfa Cymorth Ariannol.

**Newid mewn statws mewnfudo yn ystod astudiaethau**

- Os byddwch yn derbyn newid i'ch statws mewnfudo mae'n **rhaid** i chi hysbysu'r Swyddfa Cymorth Ariannol a Chofrestrfa'r Brifysgol ar unwaith.
    - Byddai hyn yn cynnwys unrhyw ymateb – cadarnhaol neu negyddol - gan y Swyddfa Gartref i gais rydych wedi'i wneud, yn ogystal ag unrhyw geisiadau mewnfudo pellach a gyflwynir, hysbysiad o newidiadau i statws neu'r telerau sy'n gysylltiedig â'r statws a roddwyd i chi.
    - Dylid tynnu sylw'r Swyddfa Cymorth Ariannol at unrhyw ohebiaeth gan y Swyddfa Gartref neu iddi ynghylch eich statws a'i delerau er mwy gallu cadarnhau bod eich hawl i astudio yn parhau.
- Os bydd newid i'ch statws mewnfudo yn golygu y byddwch yn gymwys ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr gan lywodraeth y DU, rhaid i chi wneud cais am hwn yn ddi-oed. Unwaith y byddwch wedi hysbysu'r Brifysgol o'r newid hwn i'ch statws mewnfudo, Bydd Swyddog Cymorth Ariannol yn gallu helpu i chi wneud cais am y cymorth hwn. Yna, byddai disgwyl i chi ail-ymgeisio am gymorth ariannol i fyfyrwyr gan lywodraeth y DU bob blwyddyn ddilynol, pe baech yn parhau'n gymwys.
- Unwaith y bydd eich cymorth ariannol i fyfyriwr gan lywodraeth y DU wedi'i asesu a'i ddyfarnu, bydd eich hawl i Fwrsariaeth Noddfa yn cael ei ailasesu er mwyn ystyried unrhyw gyllid i fyfyrwyr gan y llywodraeth rydych bellach yn gymwys i'w dderbyn.

**Newid mewn statws cenedligrwydd**

- Rhaid i chi hysbysu'r Swyddfa Cymorth Ariannol a Chofrestrfa'r Brifysgol os bydd eich statws cenedligrwydd yn newid unrhyw bryd yn ystod eich cais neu astudiaethau.
- Efallai y bydd newid mewn cenedligrwydd yn gallu effeithio ar eich statws ffioedd a chymorth myfyrwyr.

# Meini Prawf Dyfarnu:

Yn 2023/24, i benderfynu pwy fydd yn derbyn Bwrsariaeth Noddfa, bydd y panel dyfarnu yn ystyried pob un o'r canlynol:

1. p'un a yw ymgeiswyr yn bodloni pob un maen prawf cymhwysedd ar gyfer yr ysgoloriaeth;
2. pa ymgeiswyr cymwys a fyddai'n elwa'r mwyaf o dderbyn yr Ysgoloriaeth Noddfa, gan gymryd i ystyriaeth:

    - statws preswyliad
    - unrhyw rwystrau mae ymgeiswyr wedi'u hwynebu wrth gael mynediad i addysg uwch a'i chwblhau;
    - mynediad i gyllid gan y llywodraeth;
    - uchelgais yr ymgeisydd ar gyfer y dyfodol;

- rhwydweithiau cymorth yr ymgeisydd;
- datganiad personol yr ymgeisydd.

Sylwer:

Nod y cynllun yw gwneud yn siŵr bod ein corff myfyrwyr sy'n derbyn Bwrsariaethau yn amrywiol o ran y nodweddion gwarchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Pan fydd dau ymgeisydd yn gyfartal trwy ein meini prawf dethol, bydd y Brifysgol yn rhoi blaenoriaeth i grwpiau lleiafrifol sy'n cael eu nodi'n flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru a CCAUC.